Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	**15 Hydref 2024**
LLEOLIAD:	**Ar-lein**
TEITL:	**Hunanasesiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-2024**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Ystyried gallu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i hunanasesu
Er:	Argymhelliad
PORTFFOLIO'R CABINET AC AELOD CABINET:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaeth Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir

Mae Canllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA): *Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* (Argraffiad 2018) yn rhoi cyfarwyddyd ar swyddogaeth a gweithrediad pwyllgorau archwilio.

Yn 2022, cyhoeddodd CIPFA ddiweddariad o'r "*Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu: Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio:"*.

Canllawiau sy'n nodi swyddogaeth a gweithrediad gofynion hunanasesu Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio (GACs) gan gynnwys hunanasesu.

Nod y canllaw yw:

- cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu i ddeall pwrpas y pwyllgor, a swyddogaethau craidd (ac yn bosibl, ehangach), eu dyletswyddau fel aelodau, annibyniaeth ac atebolrwydd, ac effeithlonrwydd.
- meysydd lle gall pwyllgorau archwilio ddylanwadu arnynt, ychwanegu gwerth, a chefnogi llywodraethu cyffredinol o fewn yr awdurdod.

Hunanasesu

Mae Canllawiau 2022 yn cynnwys canllawiau ar ddatblygu effeithiolrwydd ac yn argymell bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn ystyried:

- ei fod yn gweithredu yn unol â'r arferion a argymhellir yng Nghanllawiau 2022,
- a yw'n cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.
- myfyrio ar sut/a yw wedi cyflawni ei gylch gorchwyl/swyddogaethau craidd,

- sut mae'n gweithredu (e.e. hyfforddi, cefnogi a datblygu profiad/gwybodaeth),
- ei effeithiolrwydd (effaith ar ansawdd llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau archwilio boddhaol) ac unrhyw adborth gan y rhai sy'n rhyngweithio ag ef
- yr angen i adolygu gwybodaeth a sgiliau'r Aelod,
- gwerthuso ei effaith a nodi meysydd i'w gwella.

Yn ogystal, dylid ystyried y canlynol:

- Cyfraniad ac effaith gadarnhaol y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu ar waith yr Awdurdod
- effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu
- nodi meysydd i'w gwella
- hyfforddiant
- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn darparu adborth cyffredinol unigol i'r aelodau

Mae Canllawiau 2022 yn argymell bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn rhoi adroddiad ar eu heffeithlonrwydd yn adroddiad blynyddol y Cadeirydd.

Hunanasesiad Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-2024

Yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2024 ystyriwyd Hunanasesiad drafft a Gwerthusiad o adolygiad effeithiolrwydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ('y Pwyllgor').

Sefyllfa bresennol

Yn dilyn y gweithdy, lluniwyd cynllun gweithredu **(atodiad 3)** o'r Hunanasesiad a fydd yn cael ei fonitro a'i gyflwyno i bwyllgorau'r dyfodol.

ARGYMHELLION: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

1) nodi cynnwys y ddogfen ddrafft '*Hunanasesiad o arfer da'* (yn **Atodiad 1**);
2) nodi cynnwys y ddogfen 'Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio' (**Atodiad 2)**
3) nodi'r cynllun gweithredu a chytuno i gynnal gweithdy ar wahân i fynd drwy'r pwyntiau (**Atodiad 3)**

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION: Er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn fodlon bod trefniadau effeithiol o ran sicrwydd ar waith i reoli materion ariannol, rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

Atodiadau:

Atodiad 1 – dull '*Hunanasesiad o arfer da*' y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i cwblhawyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad E)

Atodiad 2 – Dogfen 'Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio (Atodiad F)

	Atodiad 3- Cynllun Gweithredu Hunanasesu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Elin Prysor- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Katy Sinnett-Jones
Dyddiad:	13.09.2024